Sefydliad Cymunedol Cymru

# Gweithio mewn partneriaeth

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein hannog i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau, nid yn unig i ystyried y gymuned y maent yn byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae eu gwaith yn gydnaws â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, ar sail wirfoddol a statudol, ac yn eu hategu. Hoffem i chi ystyried sut y gall eich sefydliad weithio gyda sefydliadau eraill i ychwanegu gwerth, gan weithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu â nhw.

## Beth yw partneriaeth?

Ystyr partneriaeth yw cydberthynas lle y bydd dau sefydliad neu fwy yn cydweithio. Mae'n bosibl y bydd gan y sefydliadau werthoedd cyffredin neu y byddant yn anelu at gyflawni nod cyffredin. Gall pob partner gyflawni mwy drwy weithio gydag eraill nag ar ei ben ei hun, drwy greu hinsawdd o ymddiriedaeth, parch a dealltwriaeth sydd o fudd o ran diwallu anghenion eraill.

## Beth sy'n gwneud partneriaeth dda?

Nid oes un dull gweithredu penodol ar gyfer gweithio'n effeithiol gydag eraill. Gall partneriaethau fod yn ffurfiol ac wedi'u rhwymo gan gontract o ryw fath. Neu gallant fod yn anffurfiol, fel cymorth mewn nwyddau, rhannu adnoddau, atgyfeiriadau, cyfeirio ac ati.

Mae partneriaethau yn cynnwys gwahanol sefydliadau sy'n amrywio o ran maint, math a diwylliant. Dylai partneriaethau, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, ystyried yr elfennau canlynol o ran arferion da:

- Mae ymddiriedaeth yn hanfodol. Mae'n galluogi deialog, gan sicrhau bod trefniadau cyfathrebu cadarn ar waith rhwng y partneriaid o adeg sefydlu'r bartneriaeth, yn ystod cyfnod gweithredu'r bartneriaeth a hyd yn oed pan ddaw'r gydberthynas i ben. Mae hyn yn helpu i reoli disgwyliadau ac yn cynnal cydberthnasau da drwy gydol y broses.
- Mae angen hyblygrwydd ar bartneriaethau effeithiol, ac mae angen i bob rhan o'r bartneriaeth fod yn barod i gyfaddawdu. Bydd dealltwriaeth o gryfderau, blaenoriaethau a safbwyntiau pob rhan o'r bartneriaeth, ac o'r ffordd y mae eich sefydliadau yn cydblethu â'i gilydd yn hytrach na herio neu ddyblygu, yn helpu i leihau unrhyw wrthdaro rhwng y sefydliadau sy'n cydweithio.
- Mae cydweithrediad rhwng partneriaid yn bwysig – gallu dylanwadu ar y gydberthynas a deall sut y bydd yn gweithio'n ymarferol, yn ogystal â'ch cyfrifoldeb tuag at eraill. Mae hyn yn helpu i leihau tensiwn, i wella ymatebion amserol ac i ymdrin â'r ddynameg o ran pŵer.

- Cofiwch gynnal adolygiadau rheolaidd, myfyrio a diwygio'n briodol, gan gydnabod cryfderau pob partner, yn ogystal â'u cyfyngiadau, ar yr un pryd. Ceisiwch gydnabod pan na fydd partneriaeth yn gweithio fel y byddech wedi gobeithio a byddwch yn barod i adael os bydd angen, heb gael effaith andwyol ar y gydberthynas.

## Ydych chi'n barod i weithio mewn partneriaeth?

Pethau i'w hystyried:

- Ai dyma'r partner cywir?
    - Oes gennych chi'r un gwerthoedd neu weledigaeth neu rai tebyg?
    - Ydych chi'n deall cyfyngiadau eich gilydd e.e. Adnoddau, amser, sgiliau ac ati?
- Ydych chi'n gwybod beth i'w ddisgwyl gan y bartneriaeth?
- A ddylech chi lunio cytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol?
- Oes angen i chi bennu nodau clir?
- Sut bydd y bartneriaeth o fudd i'ch cleientiaid/rhanddeiliaid/sefydliad?
- Ydych chi wedi ymgynghori â'ch tîm? (Staff/ymddiriedolwyr ac ati)
- Oes angen unrhyw ystyriaethau cyfreithiol/cytundebol?
- Beth yw'r risgiau?

## Adnoddau da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

- CGGC
- Hyfforddiant CGCC
- NICVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Gogledd Iwerddon)
- Y Ganolfan Gydgysylltu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd

! Mae'r dolenni canlynol yn eich tywys i wefannau allanol sy'n gywir ac yn gyfredol yn ein barn ni, ond nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am dudalennau a gaiff eu cynnal gan ddarparwyr allanol.